

Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd ar  
Nos Lun 20fed Hydref, 2025 am 7.30 y.h. yn Neuadd Lisburn, Llanafan  
Minutes of a Meeting of Trawsgoed Community Council held on Monday 20<sup>th</sup> October, 2025  
at 7.30 p.m. held at Lisburne Hall, Llanafan.

**Presennol/Present:** Cyng./Cllr. A. Richards, (Cadeirydd/Chair)  
Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan, Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A. Davies,  
Cyng./Cllr. M. Davies, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. E. Lewis, Cyng./Cllr. L. Leyshon,  
Cyng./Cllr. A. Evans,

**Ymddiheuriadau / Apologies:** Cyng./Cllr. P. Davies.  
Cynghorydd Sir/County Councillor Meirion Davies.

- |      |   |   |
|------|---|---|
| 151. | <b>Materion Personol</b>  | <b>Personal Matters</b>   |
| 152. | <b>Datgelu Buddiannau Personol</b><br>Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau.   | <b>Disclosure of Personal Interest</b><br>Members were reminded to declare an interest when discussing items.   |
| 153. | <b>Asesiad Risg ac Asedau</b><br>Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau.   | <b>Risk and Asset Assessment</b><br>There were no matters arising regarding Assets.   |
| 154. | <b>Cofnodion Cyfarfod Diwethaf</b><br>Cadarnhawyd a derbyniwyd y cofnodion 8fed o Fedi 2025, cynhigiwyd ac eiliwyd cywirdeb gan Cyng. E. Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. P. Bonner.  | <b>Minutes of the Last Meeting</b><br>The following minutes were accepted 8 <sup>th</sup> September, 2025; confirmed and seconded by Cllr. E. Lewis and Cllr P. Bonner.   |
| 155. | <b>Materion yn Codi o'r Cofnodion</b>   | <b>Matters Arising from the Minutes</b>   |
| 156. | Maes Chwarae Maes y Felin, Llanafan.<br>Dim datblygiadau pellach o ran les Cae Chwarae Maes y Felin.<br>Adroddodd y Clerc fod adolygiad wedi'i gynnal yn ddiweddar o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 a Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 Arolygu Dŵr a bod rhai afreoleidd-dra wedi'u darganfod a fydd angen gwaith adfer angenrheidiol i gydymffurfio â'r Rheoliadau.<br><br>Y Clerc i gysylltu â Dŵr Cymru i sicrhau diffodd y cyflenwad dŵr ar y safle, bydd hyn yn canslo unrhyw waith angenrheidiol am y tro. Gwnaed cais hefyd i derfynu'r cyflenwad trydan dros dro gan nad oes gofyniad ar gyfer y cyflenwad ar y safle ar hyn o bryd ac mae'r tâl misol am wasanaethau y tu allan i gyllideb y Cyngor Cymuned. | Maes y Felin Playing Field, Llanafan<br>No further developments on the Maes y Felin Playing Field lease.<br>The Clerk reported that an inspection had recently been carried out under the Water Industry Act 1991 and Water Supply (Water Fittings) Regulations 1999 Inspection of Water and that certain irregularities were discovered which will require remedial work to conform with the Regulations.<br>The Clerk to contact Welsh Water to ensure that the water supply is turned off, this will cancel any required work at present. A request has also been made for the electricity supply to be temporary terminated as currently there is no requirement for the supply on site and the monthly charge for services is outside of the Community Council's budget. |

- |      |  |  |
|------|--|--|
| 157. | Nifer o faterion hanesyddol angen sylw, Cyngor Sir Ceredigion wedi cydnabod derbyn gwybodaeth am y materion, bydd angen aros i'r gwaith eu cwblhau gan dynnu sylw'r Cyngor Sir at y materion yn achlysurol os na byddant wedi gweithredu arnynt.   | A number of historical issues needing attention, Ceredigion County Council has acknowledged the reporting of these matters, it will be necessary to wait for the work to be completed and occasionally bring the issues to the attention of the County Council if they have not been acted upon.   |
| 158. | Tir lithriad ger ochr yr Afon Ystwyth tu cefn i Abermagwr. Sefyllfa'n parhau yr un peth ond adroddir hefyd mewn lleoliad cyfagos bod y tir yn erydu gan achosi i beilon trydan fod yn agos iawn at ochr yr afon. Ymateb gan Scottish Power y cynhaliwyd ymchwiliad o'r safle a byddid yn monitro'r sefyllfa. | Landslide near the side of the River Ystwyth behind Abermagwr. The situation remains the same but it is also reported in a nearby location that land is eroding resulting in an electricity pylon being very close to the riverside. Response from Scottish Power that an investigation has been carried out on the site and the situation will be monitored |
| 159. | Cwlfert/ Drain ddŵr agored wrth ben lôn Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn, gwaith wedi dechrau ond heb gwblhau a'r lleoliad yr un mor beryglus. Ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion bod y drain ddŵr ar eiddo preifat a bod yr ymholiad wedi cau.   | Culvert/Open drain by Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn, work started but not completed with the location still as dangerous. Response from Ceredigion County Council that the drain is on private land and that the enquiry has closed.   |
| 160. | Bont Sigl, Llanafan wedi ail agor.   | Bont Sigl, Llanafan has reopened..   |
| 161. | Nifer o dyllau yn y ffordd rhwng Llanafan a Brynafan angen sylw.   | A number of pot holes between Llanafan and Brynafan needing attention.   |
| 162. | Sefyllfa o ddŵr yn cronni rhwng Y Gors a Penffordd yn achosi problemau eto er i Gyngor Sir Ceredigion drefnu gwneud gwaith o roddi drain ddŵr newydd ar y safle rai misoedd yn ôl.   | Rain water is causing flooding between New Cross and Penffordd despite Ceredigion County Council organising drainage work on the site several months ago.  |
| 163. | Dwr glaw yn llifo o'r caeau ac achosi dwr i gronni a'r ffordd i dorri heibio i Bryngibdda.   | Rain water from the fields causing flooding and eroding of the road past Bryngibdda.   |
| 164. | Cyflwr y ffordd angen sylw o Lanafan, heibio Brynafan ac i lawr i gyfeiriad New Row.   | Road condition requiring attention from Llanafan, via Brynafan and down towards New Row.   |
| 165. | Mae arwydd Llanfihangel-y-Creuddyn ar gyffordd heibio Sarnau wedi diflannu ac atgoffir y Cyngor Sir fod arwydd Pentre Cnwch Coch parhau heb ail-osod.  | The sign of Llanfihangel-y-Creuddyn on the junction of Sarnau hill has disappeared and the County Council is reminded that the Village Sign for Cnwch Coch has not been returned.  |
| 166. | Mae bin halen ar waelod rhiw i Lanfihangel-y-Creuddyn wedi cael difrod.  | Salt bin at bottom of Sarnau Hill has obtained damage.   |

167. Yr angen ail-leoli polyn cornel gardd Glanaber yng Nghnwch Coch yn dilyn gwaith diweddar ar ddraen dŵr. A corner stone pole of garden of Glanaber in Cnwch Coch is in need of repositioning following recent work on a water drain.
168. Tyllau yn y ffordd rhwng Glanyrafon a Cynon Villa, Llanfihangel-y-Creuddyn ac ar ben y rhiw rhwng Cnwch Coch a Llanfihangel-y-Creuddyn. Potholes in the road between Glanyrafon and Cynon Villa, Llanfihangel-y-Creuddyn and at the top of the hill between Cnwch Coch and Llanfihangel-y-Creuddyn.
169. Nodyn atgoffa bod llwybr cerdded yn Llanafan angen sylw sylweddol. A reminder that a footpath in Llanafan requires considerable attention.
170. Coed o eiddo preifat wedi cwmpo i fewn i Dir Comin, Llanfihangel-y-Creuddyn, perchenog y coed yn ymwybodol. Trees from private property have fallen onto the Common Land, Llanfihangel-y-Creuddyn. Owner aware of the situation.
171. **Materion Cyllidol**
172. Cytunwyd i dalu anfoneb P Bonner o £330.00 am waith fel a nodir yn yr amcanbris canlynol Chwefror 2025: torri llwybrau Llwynprenteg, Pont Sigl, Ffordd Uchaf £150.00 a £180 am dorri porfa Tir Comin, Llanfihangel-y-Creuddyn. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. A. Davies ac eiliwyd gan Cyng. I Leyshon. Datganodd Cyng. P. Bonner ddi-ddordeb wrth drafod yr eitem yma, ac ymadawodd â'r cyfarfod. **Financial Matters**  
It was resolved to pay P Bonner £330.00 for work undertaken as per following quotation February 2025: £150 Path clearance Llwynprenteg, Pont Sigl, Ffordd Uchaf. £180 Grass cutting Tir Comin, Llanfihangel-y-Creuddyn. Proposed by Cllr. A. Davies and seconded by Cllr. I. Leyshon. Cllr. P. Bonner declared an interest when discussing the item and removed himself from the meeting.
173. Archebir Torch Pabi ar gyfer Gwasanaeth Dydd Sul y Cofio. Cytunwyd i dalu anfoneb o £20 am y Dorch. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards. Archebir Torch Pabi ar gyfer Gwasanaeth Dydd Sul y Cofio. Cytunwyd i dalu anfoneb o £20 am y Dorch. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards.
174. Cytunwyd ar rodd o £10.00 i'r Lleng Brydeinig, cynigiwyd y taliad gan Cyng. P. Bonner ac eiliwyd gan Cyng. M. Davies. Cytunwyd ar rodd o £10.00 i'r Lleng Brydeinig, cynigiwyd y taliad gan Cyng. P. Bonner ac eiliwyd gan Cyng. M. Davies.
175. **Cyfrifon 2024/25**  
Derbyniwyd y cyfrifon wrth yr Archwilydd Allanol gyda chanlyniad anghymwysedig ar y cyfrifon gyda'r neges isod gan yr Archwilydd Cyffredinol Cymru:  
*Nodwn mai dim ond y Datganiad Cyfrifon y cyhoeddir ar y wefan. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i gyhoeddi'r datganiad cyfrifon, y datganiad llywodraethu blynyddol ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Rydym yn argymhell bod y Cyngor yn cyhoeddi'r ffurflen flynyddol ardystiedig gyflawn ar y wefan.*  
**Accounts 2024/2025**  
Accounts received from External Auditor with an unqualified conclusion, which notes all in order but with the following statement from the Auditor General for Wales: *We note that the Council only publishes its accounting statement on its website. It is however required to publish the accounting statement, the annual governance statement and the Auditor General's report. We recommend that the Council publishes the complete certified annual return on the website.*

176. **Ceisiadau Cynllunio**
177. Nid oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio isod.  
A250738 Penybryn, Llanafan SY23 4BA:
178. Erection of one dwelling.
- A250767 14 Maes Mawr, Abermagwr,  
179. SY23 4AS Demolition of existing rear extension and conservatory and construction of new extension.
180. **Gohebiaeth**
181. Gwahoddiad i gyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned ar 25ain Tachwedd 2025 yng Nghanolfan Rheidol, Aberystwyth.
182. Cais gan Gyngor Sir Ceredigion am fanylion cysgodion bysiau sydd o dan berchnogaeth Cyngor Bro Trawsgoed. Y Clerk i ymateb i'r cais.
183. **Rhannu Gwybodaeth**
184. Cysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion i dynnu sylw fod yna ddarn o'r ffordd A4340 yn rhoi rhwng Abermagwr a mynediad am Lanfihangel-y-Creuddyn.
185. Tyllau yn y Ffordd angen tynnu sylw'r Cyngor Sir:  
Ganol Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn gan gynnwys ar y ffordd heibio ochr yr Eglwys;  
Nifer o dyllau dwfn a mawr ar hyd y ffordd ar Rhiw Sarnau, Llanfihangel-y-Creuddyn;
186. Derbyniwyd cwynion fod ambell i sietyr o eiddo preifat angen torri nol gan fod yn ymestyn gormod allan i'r ffordd o amgylch Llanafan ac o Cnwch Coch i gyfeiriad New Row.
187. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**  
Nos Lun 1af o Ragfyr 2025 am 7.30y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn.

## **Planning Applications**

No objection to the following planning applications.  
A250738 Penybryn, Llanafan SY23 4BA:  
Erection of one dwelling.

A250767 14 Maes Mawr, Abermagwr,  
SY23 4AS Demolition of existing rear extension and conservatory and construction of new extension.

## **Correspondence**

Invitation to a meeting between representatives of the County Council and Town and Community Councils on 25th November 2025 at Canolfan Rheidol, Aberystwyth.

Request from Ceredigion County Council for details of bus shelters owned by Trawsgoed Community Council. The Clerk to respond to the request.

## **Sharing of Information**

Contact Ceredigion County Council to that there is a section of the A4340 roadside giving way between Abermagwr and the access for Llanfihangel-y-Creuddyn.

Potholes to be brought to the attention of the County Council:  
Llanfihangel-y-Creuddyn Village including the road alongside of the Church;  
A number of deep and large potholes along Sarnau Hill.

Complaints were received that some privately owned hedges needed to be cut back which extended out into the road around Llanafan and from Cnwch Coch in the direction of New Row.

## **DATE OF NEXT MEETING**

Monday 1<sup>st</sup> December, 2025 at 7.30p.m. at Llanfihangel-y-Creuddyn School.